

COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Y CABINET

DYDD MERCHER, 30 TACHWEDD 2022

Cabinet Members:

Cynghorwyr:: S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle, N.Jenkins, D.M.Peters, J.Hurley, S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths a/ac S.Jones

Swyddogion yn bresennol:

N.Pearce, C.Griffiths, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw a/ac J.Woodman-Ralph

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cyng. S K Hunt bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd annerch yr Aelodau gyda chyngor ar benderfynu ymlaen llaw.

Anerchodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr Aelodau.

Fel y gwyddoch, mae adroddiad ar yr agenda heddiw ynghylch Cynllun Gwella Strategol Ysgolion.

Mae'r cynnig hwn yn benderfyniad newydd a ffres y bydd aelodau'n ei wneud, felly ni fydd y ffaith eich bod efallai wedi pleidleisio mewn ffordd benodol mewn cyfarfod blaenorol yn gyfystyr â phenderfynu ymlaen llaw, cyn belled â'ch bod yn cadw meddwl gwirioneddol agored mewn perthynas â'r cyfarfod newydd hwn.

Fel y gwyddoch, wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes y cyngor, rhaid i chi wneud hynny gyda meddwl agored ac ystyried yr holl wybodaeth o'ch blaenau yn wrthrychol, gan roi sylw dyladwy i gyngor swyddogion. Yn ystod y broses benderfynu, mae'n rhaid i chi ymddwyn yn deg ac er budd y cyhoedd. Mae gofyn i chi wneud eich penderfyniadau ar sail y ffeithiau o'ch blaenau, ac ni ddylech fod wedi gwneud penderfyniad cyn y cyfarfod.

Os ydych chi'n ystyried eich bod chi wedi dod i farn neu benderfyniad sefydlog mewn perthynas â'r mater hwn, ac nad oeddech yn gallu neu nad oeddech yn fodlon ystyried unrhyw sylwadau neu gyngor arall, neu gall aelod o'r cyhoedd deimlo wrth ystyried yr holl faterion fod risg yno, mae'n debygol y byddwch wedi penderfynu ar y mater ymlaen llaw. Yn unol â hynny, os ydych chi'n teimlo eich bod chi wedi rhagderfynu eich safbwynt, ni ddylech gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais. Gallai rhagderfynu annilysu'r penderfyniad a gallai arwain at ddwyn achos yn erbyn y cyngor a gallai hefyd fod yn gyfystyr â thorri Côd Ymddygiad yr Aelodau. Dyma'r cyfle i chi ddatgan hynny.

Mae gennych hawl i gael barn ragarweiniol ar fater penodol cyn cyfarfod (a elwir fel arall yn rhagdueddiad) cyn belled â'ch bod chi'n cadw meddwl agored a'ch bod chi'n barod i ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a'r pwyntiau a wnaed ynghylch y mater dan sylw cyn dod i benderfyniad.

Dylid nodi bod y penderfyniad dan sylw yn un i'r Aelodau benderfynu yn ei gylch.

Er mwyn eglurder, roedd ymrwymadau manifesto a datganiadau polisi a oedd yn gyson â pharodrwydd i ystyried a phwyso a mesur ffactorau perthnasol wrth wneud y penderfyniad terfynol yn enghreifftiau o ragdueddiad dilys, nid rhagderfyniad. Yn ogystal, mae barn a fynegwyd yn flaenorol ar faterion sy'n codi i'w penderfynu yn y drefn arferol o ddigwyddiadau yn rhai arferol ar yr amod eich bod yn gallu mynd i'r afael â'r penderfyniad penodol hwn gyda meddwl agored..

3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr Aelodau canlynol Ddatganiadau o Ddiddordeb ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas ag Eitem 6 ar yr Agenda – Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion – Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg ar gyfer plant 3-11 oed yn lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'rgraig a Llangiwig.

Y Cynghorydd S Harris	Mae ei merch yn athrawes yn Ysgol Cwm Brombil ond mae ganddi ollyngiad i siarad a phleidleisio.
Y Cynghorydd N Jenkins	Gan ei bod hi'n llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Alltwen ond mae ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio.
Y Cynghorydd A Llewelyn	Mae'n llywodraethwr ysgol yn Ysgol Cymraeg Bro Dur ond mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio.

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd mewn perthynas ag Eitem 7 ar yr Agenda – Arian Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer 2023/2024 ar ddechrau'r cyfarfod.

Y Cynghorydd S Knoyle	Mae'n aelod o fwrdd Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd.
--------------------------	---------------------------------------------------

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A GYNHALIWYD AR 29 MEHEFIN, 28 GORFFENNAF, 19 HYDREF A 21 TACHWEDD 2022**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 29 Mehefin, 28 Gorffennaf, 19 Hydref a 21 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

5. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

6. **RHAGLEN STRATEGOL GWELLA YSGOLION - CYNNIG I SEFYDLU YSGOL CYFRWNG SAESNEG 3 - 11 OED I GYMRYD LLE YSGOLION CYNRADD ALLTWEN, GODRE'R GRAIG A LLANGIWG**

Penderfyniad:

Trafododd yr Aelodau'r cynnig i ddiwygio'r argymhellion er mwyn osgoi cynnal y cyfnod ymgynghori dros gyfnod y Nadolig a awgrymwyd yn ystod cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Cabinet a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn. Ar ôl trafod, cytunwyd i roi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Gwasanaethau Dysgu Gydol Oes, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r aelodau gofynnol, ystyried ymestyn y cyfnod ymgynghori fel y manylir isod.

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiadau effaith mewn perthynas â chydraddoldeb, risg, defnydd cymunedol a'r Gymraeg, ac i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015), ynghyd â'r goblygiadau cyfreithiol, yn unol ag Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, cymeradwyo ymgynghori ar y cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer plant 3-11 oed gyda chanolfan cymorth dysgu arbenigol, mewn adeiladau newydd i ddarparu ar gyfer disgyblion o ddalgylchoedd presennol Ysgol Gynradd Alltwen, Ysgol Gynradd Godre'r-graig ac Ysgol Gynradd Llangiwg, bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2025 a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, Aelod Cabinet dros Addysg a Chadeirydd Craffu'r Cabinet, gytuno ar estyniad addas i'r cyfnod ymgynghori er mwyn galluogi aelodau'r cyhoedd i ymateb i'r ymgynghoriad.

Y dyddiad ar gyfer rhoi hwn ar waith fydd 1 Medi 2025.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Bydd y penderfyniad hwn yn galluogi'r cyngor i gydymffurfio â gofynion yr ymgynghoriad ffurfiol a osodir ar y cyngor gan y Côt Trefniadaeth Ysgolion.

Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, bydd rhoi'r cynnig ar waith yn galluogi'r cyngor i hyrwyddo safonau addysgol uchel a chyflawni potensial pob plentyn. Bydd hefyd yn galluogi'r cyngor i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn ei ardal.

Rhoi'r penderfyniad ar waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

Ymgynghoriad

Mae'r adroddiad yn gofyn am ganiatâd i ymgynghori.

7. **ARIAN GRANT Y TRYDYDD SECTOR - DYFARNU GRANTIAU AR GYFER 2023/2024**

Penderfyniadau:

1. Rhoddir cymeradwyaeth i ddyfarnu grantiau i sefydliadau'r Trydydd Sector fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.
2. Cytunwyd i beidio â dyfarnu grantiau i'r sefydliadau fel y manylir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.
3. Bydd swm y grant sy'n daladwy i bob Partner Strategol yn cael ei gymeradwyo fel y manylir yn Atodiad 3 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhesymau dros y Penderfyniadau:

Er mwyn galluogi grantiau i sefydliadau'r trydydd sector gael eu hystyried yn unol â Chynllun y Cyngor.

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **STRATEGAETH CYFRANOGIAD CYHOEDDUS 2023-2028**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyo dechrau ymgynghoriad 12 wythnos ar y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus Ddrafft fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd rhwng 5 Rhagfyr 2022 a 26 Chwefror 2023.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Er mwyn galluogi cyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus derfynol a fydd yn sicrhau bod y cyngor yn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fel y maent yn ymwneud â gweithgareddau cyfranogiad y cyngor.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **CYFLWYNO CYNLLUN CYMORTH DISGRESIYNOL COSTAU BYW LLYWODRAETH CYMRU - CYNIGION AR GYFER DEFNYDDIO GWEDDILL Y CYLLID**

Penderfyniadau:

1. Cymeradwyo'r meini prawf dosbarthu ar gyfer gweddill cyllid Cynllun Cymorth Costau Byw Dewisol Llywodraeth Cymru fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.
2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Cyllid ar y cyd ag Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol benderfynu ar ddull dosbarthu priodol ar gyfer cyllid a ddyrennir i fanciau bwyd.

Rhesymau dros y Penderfyniadau:

I sicrhau bod yr holl gyllid sydd ar gael i'r cyngor yn cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau ac amodau'r grant.

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2023-24**

Penderfyniadau:

Cymeradwyo Sylfaen Treth y Cyngor net ar gyfer 2023/2024:

- 48,808.10 ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan; ac
- ar gyfer pob ardal Cyngor Tref a Chymuned, y swm a ddangosir ym mharagraff 6 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhesymau dros y Penderfyniadau:

I benderfynu ar Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24.

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Gyda chytundeb Cadeirydd Craffu'r Cabinet. Bydd y penderfyniad yn cael ei rhoi ar waith ar unwaith.

11. **CYNLLUN GWEITHREDU GWELLA LLYWODRAETHU
CORFFORAETHOL AR GYFER CYFNOD 2022-2023 1 EBRILL 2022 -
30 MEDI 2022**

Penderfynwyd:

Nodi'r adroddiad.

12. **DANGOSYDDION CORFFORAETHOL (1 EBRILL 2022 - 30 MEDI
2022) A DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL LEFEL
GWASANAETH CYFARWYDDIAETH Y PRIF WEITHREDWR AR
GYFER CHWARTER 2 2022/2023**

Penderfynwyd:

Nodi'r adroddiad.

13. **EITEMAU BRYD**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif 14 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

14. **PWLL NOFIO PONTARDAWE - ARIANNU GWAITH BRYD**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyo cyllid fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd i wneud gwaith atgyweirio ym Mhwll Nofio Pontardawe.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Os na fydd y gwaith yn cael ei wneud, byddai Pwll Nofio Pontardawe ar gau yn barhaol.

Rhoi'r penderfyniad ar waith:

Gyda chytundeb Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Cabinet, bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar unwaith. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' ar gyfer yr eitem hon.

CADEIRYDD